**Camau gweithredu Drafft o Gyfarfod Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

8 Hydref 2009 Y Drenewydd.

**Yn bresennol**:
Diana Reynolds (Llywodraeth Cynulliad Cymru/Cadeirydd)
Julia Korn (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru/Cadeirydd)
Jan Sherry (CCGC)
Aethne Cooke (CCGC)
Helen Buckingham (NT)
Stephen Bladwell (RSPB)
Caryn Le Roux (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
Louise George (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
Peter Jones (CCGC)
Peter Rhind (CCGC)
Peter Frost (CCGC)
Barbara Jones (CCGC)

**Ymddiheuriadau**:
Chris Tucker (Comisiwn Coedwigaeth Cymru)
Tristan Hatton-Ellis (CCGC)

| Eitem | Trafodaeth | Cam Gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1. Materion yn codi o'r diweddariadau | Amlinellodd pob grŵp y prif faterion:<br>• Er bod sefydliadau yn ymroddedig ar lefel uwch, nid yw hyn yn cael ei raeadru i bob aelod o staff, felly mae'n anodd datblygu mewn materion/prosiectau | 1. **DR** i ofyn i CXs o CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth i sicrhau y caiff ymrwymiad i broses ddatganoledig Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ei | |

- Llai o ymrwymiad o rai sefydliadau, ac o ganlyniad, caiff y rhan fwyaf o'r gwaith ei wneud gan rhai aelodau o'r grŵp yn unig
- Bylchau mewn aelodaeth (e.e. Ystâd y Goron ar y Grŵp Morol, diffyg cynrychiolaeth o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) ar y Grŵp Arfordirol,) a phrinder aelodau uwch a all wneud penderfyniadau.
- Unigolion yn cynrychioli eu hunain a heb adrodd yn ôl i sefydliadau eraill
- Mae rhai aelodau grŵp yn cynrychioli buddiannau cul iawn na ellir ymdrin â hwy yn fanwl mewn cyfarfodydd gan arwain at ddieithrio'r aelodau hynny
- Bylchau mewn gwybodaeth yn arbennig o ran rhywogaeth
- Diffyg adnoddau (gallu a chyllid)
- Yr angen am gymorth/arian ar gyfer ysgrifennu ceisiadau am arian allanol
- Pryder ynglŷn â'r diffyg eglurdeb ar ddealltwriaeth o Ddull Ecosystemau a Gwasanaethau Ecosystemau. Mae Chris Lee (Is-adran Gwasanaethau Technegol Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn fodlon i'r grŵp Polisi Bioamrywiaeth ddatblygu datganiad ar hyn.
- Yr angen i bennu fframwaith cyson ar gyfer gwneud penderfyniadau i ddatrys

| | |
|---|---|
| raeadrau drwy bob lefel o'u sefydliadau i osgoi rhwystrau sydd ar hyn o bryd yn cael ei weld yn arafu'r cynnydd | |
| 2. **DR a JK** i gwrdd â Michele Bromley a Chris Tucker i drafod cynnydd gyda'r Grŵp Coetir ac i sicrhau cyfranogiad gweithredol gan y Comisiwn Coedwigaeth mewn grwpiau eraill | Neges e-bost wedi'i hanfon at bawb |
| 3. **JK** i newid enw'r Grŵp Tir Ffermio Iseldir i'r Grŵp Ffermdir Amgaeëdig ar bob dull cyfathrebu/gwefan ac ati. | |
| 4. **CLR** i gael tabl ar weithgareddau Cymru gyfan ar Wasanaethau Ecosystemau gan Dai Harris | Yn mynd rhagddo |
| 5. **KJ** yn paratoi papur ar Ddull Ecosystemau ar gyfer y grŵp Polisi a bydd yn ei gylchredeg i bawb i roi sylwadau arno ym mis Tachwedd | |
| 6. **DR** i siarad â Kevin Austin i bennu a oes unrhyw werth mewn trefnu cyfarfod arbennig ag ef ym mis Tachwedd i drafod Glastir | |
| 7. **DR** i bennu a fydd AAS o gynllun Glastir | |
| 8. **DR** i anfon nodyn i holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru | Emma Broad, Swyddog Bioamrywiaeth Wrecsam yw'r |

| | | |
|---|---|---|
| materion lle ceir gwrthdaro rhwng anghenion rhywogaethau a rhwng anghenion rhywogaethau a chynefin<br>• Ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahân i Glastir ELS ddim yn cyrraedd Grwpiau Ecosystemau (heb dderbyn ymgynghoriad Glastir ar gyfer Tŷ'r Cyffredin na Tŷ'r Arglwyddi eto). | ynglŷn â'r angen i ymgynghori â'r Grŵp Ecosystemau a'r SEG | cynrychiolydd CGB [emma.broad@wrexham.gov.uk](mailto:emma.broad@wrexham.gov.uk) |
| | 9. **JK** i bennu a yw Kate Williamson yn dal i allu gweithredu fel cyswllt Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) ar Grwpiau Arbenigol Gwlyptir a Rhywogaethau | Mae Kate yn aros fel y cynrychiolydd SEG |
| | 10. **Pob Cadeirydd** i sicrhau bod cysylltiadau CGB yn dilyn y protocolau, a drafodir yn nes ymlaen, wrth adrodd yn ôl i CGBau eraill (Dylai Ymddiriedolaethau Natur a Pharciau Cenedlaethol adrodd yn ôl i eraill hefyd) | Cyflawnwyd |
| | 11. **DR** i anfon manylion am arian grant ar gyfer 2009/10. ~6/8K i'w roi i bob grŵp er mwyn gweithredu'n uniongyrchol ond rhaid ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhedeg y grant gan ddefnyddio rheolau a ddatblygwyd gan Joanna Robertson ar gyfer CCGC. | |
| | 12. **JK** i bennu a yw Grŵp Cyllid CCGC/EA/Comisiwn Coedwigaeth wedi'i sefydlu a | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | p'un a allai gynnig cyngor i'r Grwpiau | |
| 2. Ysgrifennu Camau Gweithredu | Cynhaliwyd gweithdy yn edrych ar rai o'r camau gweithredu ynglŷn â chynefin a rhywogaethau a gynhyrchwyd hyd yn hyn. Nodwyd y pwyntiau allweddol a godwyd yn y drafodaeth.<br><br>Cyflwynodd JS grynodeb o weithdy Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, roedd pwyntiau tebyg wedi'u codi ynglŷn â'r targedau CAMPUS ac ati. Trafodwyd pwynt ychwanegol am ddarparu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol gyda chefnogaeth graidd. Codwyd pryder ynglŷn â diffyg profiad a gwybodaeth dechnegol posibl staff y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a staff lleol ac felly na ellir datblygu camau gweithredu. Dangosodd y Grŵp Ecosystemau ddiddordeb mewn cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer partneriaethau'r CGB. | 13. **JK** i gylchredeg pwyntiau bwled o'r drafodaeth<br>14. **JK** i gylchredeg crynodeb gweithdy'r PBC<br>15. **JK** i drafod y posiblrwydd â Tîm Cymorth PBC am hyfforddiant CGB (gan gynnwys hyfforddiant maes)<br>16. **HB** i siarad â Natur am gynnwys hyfforddiant CGB yn eu rhaglenni | Cyflawnwyd<br><br>Cyflawnwyd<br><br>Cyflawnwyd - 3 Seminar ranbarthol i'w trefnu ym mis Ebrill/Mai 2010 |
| 3. Diweddariad Grŵp Polisi | Camau Gweithredu Polisi o'r Grwpiau Ecosystemau a'r SEG; edrychodd y Grŵp Polisi ar dri thempled cam gweithredu polisi yn y cyfarfod Polisi a chaiff y rhain eu datblygu gan JK a DR. Mae dau fater Polisi Trefol wedi'u cyflawni'n barod.<br><br>Cytunwyd y byddai yna raglen dreigl o naw mis yn ei lle i adolygu'r cynnydd; Yr amserlen yw:<br><br>Medi 2009 | 17. **Pawb** i sicrhau y caiff templedi Polisi eu cyflwyno i JK bythefnos cyn y cyfarfod Grŵp Polisi Perthnasol<br>18. **JK** i gylchredeg dyddiadau cyfarfodydd y Grŵp Polisi<br>19. **Pawb** i ddarllen cofnodion y Grŵp Polisi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru<br>20. **JK** i wahodd Cadeiryddion i | <br><br><br>Cyflawnwyd<br><br><br>Wedi'i gyflawni ar gyfer y cyfarfod nesaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ucheldir, Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir, Trefol<br><br>Rhagfyr 8 2009<br>Morol, Ffermdir Amgaeëdig, Gwlyptir, SEG<br><br>Mawrth 16 2010<br>Dŵr croyw, Arfordirol, Coetir<br><br>Mehefin 15 2010<br>Adolygu Ucheldir, Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir, Trefol<br><br>Medi 21<br>Adolygu Morol, Ffermdir Amgaeëdig, Gwlyptir, SEG | gyfarfodydd y Grŵp Polisi lle caiff eu materion hwy eu trafod<br>21. **Pawb** i anfon materion Polisi brys i JK wrth iddynt godi<br>22. **JK** i sicrhau y caiff materion Polisi brys eu trafod ac y gweithredir arnynt rhwng cyfarfodydd neu yn y cyfarfod nesaf. | |
| 4. Amserlen ar gyfer Targedau/Cynlluniau Gweithredu | Dangosodd JS yr amserlenni ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. | 23. **JS** i newid Rhywogaethau Morol i fis Chwefror 2010<br>24. **JS** i'w gylchredeg at bawb | |
| 5. Adroddiad Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Bydd JK yn paratoi'r adroddiad ar gyfer PBC. Cytunwyd y byddai'r grwpiau yn anfon enghreifftiau i JK o'r canlynol:<br>1. Prosiectau/camau gweithredu da sydd wedi codi o'r grwpiau<br>2. Problemau gyda'r grwpiau<br>3. Pwyntiau penderfynu neu'r camau gweithredu sydd eu hangen gan PBC | 25. **Pawb** i e-bostio JK gyda phwyntiau erbyn dydd Mercher (14 Hydref)<br>26. **JK** i ysgrifennu papur i gyfarfod grŵp Llywio PBC ym mis Tachwedd | Cyflawnwyd<br><br>Cyflawnwyd |
| 6. Unrhyw Fater Arall | Adrodd ar Gynefinoedd<br>Dylai pob grŵp nodi pwy fydd yn cynnal yr | 27. **Pawb** i roi enwau staff adrodd i JK (ucheldir wedi'i gwblhau) | |

| | | |
|---|---|---|
| adroddiad ar gynefinoedd ar System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth ac yn adolygiad bob tair blynedd y DU. | | |
| Amlygodd DR gynllun i wella cysylltiadau i'r sector academaidd drwy benodi un cyswllt academaidd ar gyfer pob un o'r Grwpiau Ecosystem a'r SEG.<br><br>Cytunodd pawb y byddai hyn yn ddefnyddiol iawn. Ar gyfer y SEG byddai naill ai arbenigwr mewn un o'r grwpiau tacson sydd â diffyg arbenigedd neu arbenigwr mewn Dynameg Poblogaeth yn ddefnyddiol | 28. **DR** i fynd ar drywydd hyn | |
| Caiff dau weithdy rhanbarthol eu cynnal ar gyfer staff CCGC a'r Comisiwn Coedwigaeth ar 19 Tachwedd ym Mangor a 26 Tachwedd yng Nghaerdydd | 29. **JK** i anfon y manylion at bawb<br>30. **DR** i ofyn i Michele Bromley/CT i sicrhau y caiff holl staff rhanbarthol Comisiwn Coedwigaeth eu gwahodd | Cyflawnwyd<br>Cyflawnwyd |
| Gofynnwyd i PJ i wneud cyflwyniad ym Mangor ar ran y Grwpiau Ecosystemau | | Cyflawnwyd |
| Awgrymwyd y gallai'r Grŵp Coetir gynrychioli'r Grwpiau Ecosystemau yng Nghaerdydd | 31. **JK** i ofyn i Michele Bromley/CT i gynrychioli'r Grwpiau Ecosystemau yng Nghaerdydd | |
| Codwyd pryder dros gyfranogiad Asiantaeth yr Amgylchedd; er bod y Timau Bioamrywiaeth yn rhan fawr ohoni roedd adrannau eraill yn llai ymwybodol o'r broses bioamrywiaeth | 32. **DR** i drafod codi ymwybyddiaeth o Femoranda o Gytundeb â Nick Birula | |
| Roedd pryder hefyd eu bod hi'n cymryd cryn dipyn o amser i lofnodi'r Memoranda o Gytundeb gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a bod hyn yn arafu'r gwaith | | |
| Cytunodd pawb y dylai'r Grŵp Rhywogaethau | 33. **DR** i wahodd Martin | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Anfrodorol a'r Grŵp Gwybodaeth Amgylcheddol gael eu cynrychioli yn y cyfarfod hwn | Parkinson/Helen Wilkinson a Bill Sommerfield i'r cyfarfod nesaf | |
| | Cyflwynodd Richard Evans gynigion ymchwil i Defra ar ran y Grwpiau Ecosystemau a SEG. Ni chafwyd unrhyw adborth o ran a oedd unrhyw gynigion wedi eu cyflwyno | 34. **CLR** i ddarganfod a ddylid anfon syniadau ymchwil CGB newydd at Richard Evans neu Dai Harris ac i ddarganfod p'un a oedd unrhyw awgrym ymchwil o'r Grwpiau Ecosystemau wedi'u cyflwyno | |
| | | 35. **CLR** i ofyn i Nina Pritchard am grynodeb am bob gwaith ymchwil CGB yng Nghymru a ariennir gan Defra a'i anfon at JS | |
| | PJ Gweledigaeth Gwlyptir y gellid ei chysylltu â chynllunio gofodol. Gallai'r Fframwaith ucheldir ei ddefnyddio yn yr un ffordd. Awgrymodd JK y dylent gysylltu â Steve Spode o Lywodraeth Cynulliad Cymru a fu'n rhan o Rwydwaith Rhanbarth Amgylcheddol y de-ddwyrain | 36. **JK** i anfon manylion cyswllt Steve Spode at BJ a PJ | Cyflawnwyd |
| 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf | 27 Ebrill 2007<br>Mae'n bosibl y caiff cyfarfod â Kevin Austin ei drefnu ym mis Tachwedd os bydd cyfle i Grwpiau Ecosystemau a SEG wneud sylwadau pellach ar Glastir | 37. **JK** i drefnu cyfarfod | |